Cyfarwyddwr Strategol (Cyllid ac Adnoddau)
Strategic Director (Finance & Resources)

A Hughes, BA(Hons), MA, DipCG, ACA

5

Gofynnwch am / Please ask for: **Amanda Hughes**
☎ **01492 575913**
amanda.hughes2@conwy.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: **12/11/2025**

Annwyl/Dear Cyngor Cymuned Trefriw Community Council

Braf oedd gweld cymaint ohonoch chi yn y fforwm Cynghorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2025. Yn y cyfarfod, bu i mi gadarnhau yr hoffwn ysgrifennu atoch chi i nodi ym mha feysydd rydym ni'n gobeithio cael parhau i weithio mewn partneriaeth â chi.

Mae cyllid cyhoeddus ar bob lefel yn parhau i fod yn fater anodd iawn, ac mae mwy fyth o angen i ni gydweithio i gyrraedd y nodau rydym ni'n eu rhannu. Rydym yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad wrth ddarparu gwasanaethau ar y cyd sy'n cefnogi ein cymunedau a'n trigolion.

Rwyf wedi nodi isod ein cynigion a'r wybodaeth berthnasol i chi ei hystyried. Rwy'n siŵr y byddwch yn deall bod rhai costau wedi cynyddu yn sgil chwyddiant:

It was good to see many of you at the Town and Community Council forum held on 15 October 2025. At the meeting, I confirmed that I would write to you setting out the areas in which we hope to continue to work in partnership with you.

Public finances, at all levels, continue to be extremely difficult and the need to work together to achieve our shared aims is ever increasing. We value your collaboration in jointly delivering services that support our communities and residents.

I have set out below our proposals and relevant information for your consideration. You will appreciate that some costs have increased because of inflation:

Toiledau Cyhoeddus / Public Toilets

Mae adolygu **toiledau cyhoeddus** yn parhau ac, er mwyn cyflawni nod y Strategaeth Toiledau Lleol o ddarparu gwasanaeth sy'n niwtral o ran cost, rydym yn chwilio am gefnogaeth gan Gynghorau Tref a Chymuned. Y nod yw cadw'r toiledau sydd ar agor yn eu hardal ar hyn o bryd ar agor.

The review of **public toilets** is ongoing and in order to achieve the aim of the Local Toilet Strategy of delivering a cost neutral service we are looking for support from Town & Community Councils, with toilets that are currently open in their area, towards keeping the toilets open.

2026/27
Trefriw, Gower Road £ I'w gadarnhau / To be confirmed

Cae Chwarae / Playground

Rydym wedi ceisio cyllid drwy'r rhaglen gyfalaf ar gyfer gwella'r **cae chwarae** ac os bydd y cais hwnnw'n aflwyddiannus, mae'n debygol na fydd y gyllideb refeniw ar gyfer cynnal a chadw'r cae chwarae'n ddigonol i gynnal yr holl gyfleusterau pwysig hyn.

Os byddwn yn canfod diffygion neu fethiant eitem o offer chwarae trwy ein harolygiadau, byddwn yn ynysu'r eitem rhag cael ei defnyddio. Byddwch wedyn yn cael cynnig y cyfle i chi dalu costau atgyweirio/amnewid yr eitem er mwyn sicrhau ei fod ar gael i ddefnyddwyr y maes chwarae.

We are seeking funding towards **playground** improvements through the capital programme, if this is unsuccessful the revenue budget for playground maintenance will likely not be sufficient to support all these important facilities.

If we identify defects or failure of an item of play equipment through our inspections, we will isolate the item from use. You will then be offered the opportunity to meet the cost of repair/ replacement of the item to ensure its continued availability to playground users

Sesiynau Chwarae / Play Sessions

Fe gewch chi lythyr ar wahân ynglŷn â'r cyfleoedd i gynnal **sesiynau chwarae**, a fydd yn cynnwys holl fanylion y sesiynau hynny. Er hwylustod, rwyf wedi crynhoi'r costau isod.

Y gost am 10 sesiwn chwarae yn ystod y flwyddyn yw £2,325:
Mae hyn yn cynnwys 2 sesiwn dros y Pasg, 1 sesiwn yn ystod gwyliau hanner tymor y Sulgwyn, 5 sesiwn yn yr haf, 1 sesiwn yn ystod gwyliau hanner tymor mis Hydref, 1 sesiwn yn ystod gwyliau hanner tymor mis Chwefror. (Caniateir i gynghorau gael cynifer o leoliadau ag y dymunant.)

Mae cynnig Haf 2026 yn £1,400 am 5 sesiwn chwarae yn ystod gwyliau'r haf.

You will be receiving a separate letter in relation to the **play sessions** opportunities, outlining full details of the sessions. For ease of reference, I have summarised the costs below.

The cost for 10 play sessions during the year £2,325:
This includes 2 sessions in Easter, 1 session during May half term, 5 summer sessions, 1 session in October half term, 1 session in February half term. (Councils may have as many locations as they would like.)

The summer 2026 offer is £1,400: For 5 play sessions during the summer holidays.

Rwy'n eich croesawu i roi ystyriaeth lawn i'r cynigion hyn ac yn edrych ymlaen at gael dal ati i gydweithio â chi, pan fo hynny'n bosib, i barhau i ddarparu'r gwasanaethau hynny sy'n hanfodol i les ein trigolion yn y cyfnod ariannol heriol digynsail hwn.

Os hoffech chi drafod yr opsiynau neu os byddwch chi angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol erbyn dydd Gwener 19 Rhagfyr 2025.

I welcome your full consideration of the proposals and look forward to you continuing to work with us to, where possible, continue delivery of those services that are essential to the well-being of our residents in these unprecedented and challenging financial times.

If you want to discuss any of the options or require further information, then please contact the following by Friday 19 December 2025.

	Cyswllt E-bost / E-mail Contact
Toiledau Cyhoeddus / Public Toilets	affch@conwy.gov.uk
Cae Chwarae / Playgrounds	erf@conwy.gov.uk
Meysydd Chwarae / Playgrounds	nathania.minard@conwy.gov.uk

Sylwch y bydd costau yn destun TAW. / Please note costs will be subject to VAT.

Yn gywir / Yours sincerely

Amanda Hughes
Cyfarwyddwr Strategol (Cyllid ac Adnoddau)
Strategic Director (Finance & Resources)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.
We welcome correspondence in Welsh. We will respond to any correspondence in Welsh which will not lead to a delay.